RHIFYN
ISSUE
04

Llais Llantrisant

08.03.19

HAWLIAU PLANT
CHILDREN'S RIGHTS

Bob mis, bydd pwyllgor 'Llais Llantrisant' yn cwrdd i drafod materion a godir gan eu cyfoedion yn y Blychau Sylwadau a leolir o gwmpas yr ysgol. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn trafod y 42 o hawliau i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed yn nogfen Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn dilyn trafodaeth frwd, bydd y pwyllgor yn dewis Hawl y Mis. Gweler isod Hawl mis Mawrth.

Each month, the 'Llantrisant Voice' committee of the School Parliament meets to discuss issues which are raised by their peers in the 'Ideas Boxes' which are situated around the school. Also, the committee discusses the 42 rights for children and young people up to 18 years of age set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child document. Following much discussion, the committee decides which right school will focus on that month. See below this month's Right of the Month.





www.unicef.org.uk

www.childcomwales.org.uk



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

11.03.19 - Agor system apwyntiadau y Moodle
Opening Moodle appointment system
22.03.19 - Yr Eisteddfod Sir (Porthcawl)
The County Eisteddfod (Porthcawl)
12.04.19 - Diwrnod ola'r tymor
Last day of term
30.04.19 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term

GWEFAN NEWYDD YR YSGOL
SCHOOL'S NEW WEBSITE

Wedi wythnosau o waith caled o drosglwyddo'r holl wybodaeth oedd ar Moodle yr ysgol a chreu ardaloedd newydd, hoffem gyhoeddi yn swyddogol fod gan yr ysgol wefan newydd. Teimlwyd fod cofio enwau defnyddiwr a chyfrineiriau i fewngofnodi i'r Moodle yn fwrn, mae'n debyg, felly bydd mwy o dudalennau agored ar y wefan newydd. Fodd bynnag, bydd rhaid cau ambell i ardal ar y wefan newydd rhag y byd ehangach ac, yn anffodus, bydd angen manylion mewngofnodi arnoch. Fe'ch hysbysir am y rhain maes o law. Yn y cyfamser gobeithio i chi fwynhau defnyddio'r wefan newydd ac ein bod yn gweld budd ein buddsoddiad ariannol.

Following weeks of hard work transferring all the information held on the school Moodle and creating new areas, we should like to officially inform you that school has a new website. It was apparently felt that remembering usernames and passwords to log in to the Moodle was laborious so now there will be more open pages on the new website. However, it will still be necessary to make private some areas of the website so, unfortunately, usernames and passwords will still be required. We shall let you know about these shortly. In the meantime, we hope that you enjoy using the new website and that we see the value in our financial investment.



www.yggglantrisant.cymru

ALERGEDDAU A BWYDYDD
ALLERGIES AND FOOD

Mae nifer o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd ag alergeddau difrifol tuag at gnau, megis: cnau daear, menyn pysgnau, pecanau, cnau Ffrengig, olew cnau a chyflasynnau cnau. Gallai cyffwrdd neu fwyta rhai o'r eitemau hyn achosi adwaith difrifol. Er mwyn diogelwch y disgyblion hyn, gofynnir yn garedig unwaith eto i rieni osgoi anfon bwydydd sy'n cynnwys cnau i'r ysgol ar gyfer ciniawau pecyn a byrbrydau amser chwarae, os gwelwch yn dda. Mae hyn yn cynnwys bwydydd fel 'Nutella'.

Cofiwch, hefyd, i dorri grawnwin, llus, tomatos bach ac ati yn eu hanner ar eu hyd, os gwelwch yn dda. Gall plant dagu'n hawdd ar y ffrwythau hyn. Diolch yn fawr ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Currently, there are a number of children in school who have a severe, life-threatening allergy to nuts including: peanuts, peanut butter, pecans, walnuts, nut oils and nut flavourings etc. Touching or eating these items may provoke a severe allergic reaction. For the safety of these pupils, we once again kindly ask that parents do not send any food containing these items to school for a snack or in packed lunches. This also includes foodstuffs such as 'Nutella'.

Also, please remember to cut grapes, blueberries, small tomatoes etc. in half, lengthways. Children can quite easily choke on these fruits. Thank you in advance for your cooperation.











DIWRNOD Y LLYFR
WORLD BOOK DAY

Braf oedd gweld gwledd o wisgoedd amrywiol yn cynrychioli nifer o lyfrau ar Fawrth 7fed. Cafwyd diwrnod llawn hwyl a sbri gyda'r holl blant yn cymryd rhan mewn tasgau yn seiliedig ar lyfrau a chariad tuag at ddarllen.

It was great to see a variety of costumes representing various books on March 7th. We had a day full of fun activities with all children taking part in book-based activities demonstrating a love for reading.



www.worldbookday.com

DYDD GŴYL DEWI
ST DAVID'S DAY

Er nad oeddem yn yr ysgol ar Fawrth 1af, manteisiwyd ar y cyfle i ddathlu ar Fawrth 4ydd yn lle!

Although we weren't in school on March 1st, we took the opportunity to celebrate on March 4th instead!



Cofiwch fwrw golwg dros gyfrif Twitter yr ysgol neu 'Oriel' ar dudalen 'Plant' y wefan i weld rhagor o luniau!

Remember to look at our Twitter account or 'Gallery' on the 'Pupils' page of the website to view more pictures!

SENEDD YR YSGOL
SCHOOL PARLIAMENT

Dyma'r ail flwyddyn ers i ni sefydlu Senedd yr Ysgol er mwyn dod â'r holl bwyllgorau disgyblion oedd yn bodoli eisoes at ei gilydd. Mae'r disgyblion yn cynnal etholiadau yn flynyddol i benodi cynrychiolwyr o Flwyddyn 1 i 6 i eistedd ar un o'r saith pwyllgor o dan deitl Senedd yr Ysgol. Prif bwyllgor y Senedd yw'r Cyngor Ysgol ac i'r pwyllgor yma y bydd pawb yn adrodd. Ymdrechwn i ddarparu cyfleoedd i'r plant gyfrannu at lais a bywyd yr ysgol bob dydd.

This year sees the second year since the School Parliament was established to encompass all exisiting pupil committees. The children hold annual elections to appoint representatives from Year 1 to 6 to sit on one of the seven committees which make up the School Parliament. The main committee of the Parliament is the School Council and it is to this committee all others report. We strive to provide opportunities for the children to contribute to the voice and life of the school.

Y Cyngor Ysgol *School Council*	**Llais Llantrisant** *Llantrisant Voice*	**Dinasyddion Doeth** *Wise Citizens*	**Criw Cymwynasgar** *Helping Hands*






Ysgolion Iach *Healthy Schools*	**Y Criw Cymraeg** *The Welsh Crew*	**Y Criw Digidol** *The Digital Crew*





YR EISTEDDFOD GYLCH
THE REGIONAL EISTEDDFOD

Llongyfarchiadau i'r holl blant a gyrhaeddodd lwyfan Ysgol Llanhari ar Fawrth 6ed i gynrychioli'r ysgol yn yr Eisteddfod Gylch. Unwaith eto, bu perfformiadau ac ymddygiad y plant yn esiampl i bawb! Diolch i'r holl staff a rhieni sydd wedi gweithio gyda'r disgyblion. Bydd y plant a ddaeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth yn symud ymlaen at yr Eisteddfod Sir ym Mahfiliwn Porthcawl.

Congratulations to all the children who reached the stage at Ysgol Llanhari on March 6th to represent the school in the Regional Eisteddfod. Once again, the performances and behavior of the children were an example to all! Thank you to all staff and parents who worked with the children. The children who came first in a competition will now move on to the County Eisteddfod in Porthcawl Pavilion.

Cystadleuaeth *Competition*	**Safle** *Position*
Unawd Bl 2 ac iau / *Solo Yr 2 and under*	**1 & 3**
Unawd Bl 3 a 4 / *Solo Yr 3 and 4*	**1**
Deuawd / *Duet*	**1 & 2**
Parti Deulais / *Two Voice Party*	**1**
Parti Unsain / *One Voice Party*	**1**
Llefaru Bl 2 ac iau / *Recitation Yr 2 and under*	**2 & 3**
Llefaru Bl 3 a 4 / *Recitation Yr 3 and 4*	**3**
Alaw Werin / *Folk Song*	**2 & 3**
Unawd Piano / *Piano solo*	**3**



RYGBI
RUGBY

Llongyfarchiadau mawr i fechgyn CA2 ar ennill eu gêm yn erbyn Ysgol Dolau ar 07.03.19. Ymlaen â'r bechgyn i'r rownd nesaf. (Mwy o wybodaeth yn Rhifyn 5).

Many congratulations to the KS2 boys on their recent win against Ysgol Dolau on 07.03.19. On the boys go to the next round. (More information in Issue 5).



Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**